Cyfres Llanbedr | Chwefror, 1932. | Cyf. 32. Rhif 2.

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Arloeswyr ym myd Crefydd yng Nghymru.
Dyffryn Cletwr Fach.
Cyrddau Sefydlu'r Parch. T. L. Jones.
Cipdrem ar Hanes Faenor.
Priodas.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN BAROD Y MIS HWN.

CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

Pris - - 5/-.

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. CHWEFROR, 1932. CYF. XXXII. RHIF 2.

Arloeswyr ym myd Crefydd Rydd yng Nghymru.

II.—JENKIN JONES, LLWYNRHYDOWEN.

(*Yr Armin Cyntaf*).

"HERESI," yn ôl yr Athro W. J. Gruffydd," ydyw dull ac amod tŵf pob crefydd." Os felly *Heretic* yng ngwir ystyr y gair ydoedd Jenkin Jones, gŵr a berodd symud terfynau ym myd y meddwl gan greu anesmwythyd yn nyffryn Teifi a Chletwr. Y mae iddo ei le ar restr cymwynaswyr ei genedl fel cychwynnydd y Mudiad Arminaidd yng ngorllewin Cymru gan blannu eglwysi y sydd wedi goroesi gwatwar ac erlid am ddwy ganrif o leiaf. Yr oedd dylanwadau newydd ar waith ; " athroniaeth Locke, ysgrifeniadau'r Deistiaid, gwaith Samuel Clarke, dylanwad prifysgolion yr Iseldiroedd a'r Wyddoniaeth newydd." Rhwng popeth yr oedd rhaid symud neu herio'r pwerau. Medrir erbyn hyn fesur y dylanwadau ond ni wyddom ddim am y gŵr a oedd yn hirell y deffro.

Ail-adroddir yr hen hanes ond rywsut nid oes un sicrwydd ei fod yn wir. Credaf y medrid rhoi mewn paragraff y cwbl a wyddom am Jenkin Jones ac ni buasai yn baragraff hir ychwaith . Yn y Cilgwyn Church Book ceir y cofnod,—

" Jenkin Jones of Llwynrhydowen ; ord. Apr. 1726, obiit. 1742."

Am a wn i Dr. Davies, Ffrwdyfâl yn y Drysorfa Gynnulleidfaol (1850, td. 231) y sy'n rhoi'r manylion gyntaf am ei eni yn Nhrafle a symud wedyn i Fryngranod ; mynd i'r Coleg yng Nghaerfyrddin

a dod adref i gynorthwyo'i hen weinidog y Parch. James Lewis, Pencader a Phantycreuddyn; pregethu Arminiaeth, ymadael ac adeiladu Llwynrhydowen ar ei dyddyn ei hun, etc. Fe geir ond odid yr un hanes heb nemor wahaniaeth yng Ngeiriadur Bywgraphyddol Josiah T. Jones (1870. Cyf 2. td. 95): Enwogion Sir Aberteifi gan Glan Menai, 1868: Enwogion Ceredigion, Gwynionydd, 1869; Peter, Hanes Crefydd yng Nghymru td. 619. (Gyda llaw tripia Peter o briodoli Gair yn ei Bryd Enoch i Abel Francis). Ni phroffesa "Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif," fod yn ymchwil manwl ond yn hytrach yn gipdrem ddiddorol ar Gymru'r ddeunawfed ganrif.

Ail adroddir yn Llyfr newydd Gwili yr hen hanes—iddo briodi yn 1725 (y mae hwn yn ddyddiad amwys iawn) etifeddes Pantydefaid; codi capel Llwyn ar ei dir ei hun a'i ordeinio yn 1726. Ni wn ar ba sail yr adroddwyd y manylion hyn i ddechreu. Ni wn ychwaith am unrhyw brofion ar wahan i'r ffaith y gall fod rhyw draddodiad amdano wedi aros.

Fe garwn i gael sicrwydd ar ragor nag un pwynt. *Yn gyntaf, ni chodwyd Capel Llwynrhydowen yn* 1726. *Bu Jenkin Jones am o leiaf saith mlynedd yn pregethu yn ei dy ei hun yn Y Wernhir neu Benybank.* Ni chodwyd capel ar dir Llwynrhydowen nes teimlo fod y syniadau newydd wedi cydio gafael yn y fro, a cheir maen o'r mur i ddywedyd,—

"Deus nobis haec otia fecit, 1733."

Y mae un peth yn sicr, ni fedrai godi Capel Llwynrhydowen ar ei dir ei hun nes iddo ymbriodi a merch Pantydefaid. Yn ewyllys David ap Rees David, mab Rhys Lloyd, Alltyrodyn, Gorffennaf 19, 1624, ceir,—"I give to my son, Rees David, Land called Llwynrhydowen." Trigai'r mab hwn yn Llwynrhydowen ac ŵyr iddo, Thomas Lloyd, Camnant a ymbriododd a Gwenllian, merch ac etifeddes David Thomas, Pantydefaid, ac yr oedd ganddynt fab o'r enw David yn byw yn 1709 o leiaf. P'un ai merch ynte wyres i'r Dafydd hwn oedd gwraig Jenkin Jones ni wn i, ond yr oedd Llwynrhydowen ynghlwm a'r Dafydd hwn. Ni ddengys hyn ond mai trwy'i wraig y daeth yn berchen ar y Llwyn. Yn Hanes Plwyf Llandysul gan y Parch. W. J. Davies ceir cofnod am *entry* un briodas yng nghofrestri'r Plwyf:

1734 8 ber	Jenkin Jones and Mary Thomas	Marriage.

Nid yw'n gofnod o angenrheidrwydd o briodas Jenkin Jones y Llwyn ond y mae rhywbeth yn awgrymiadol yma.

Yn 1733 *y codwyd Capel Cyntaf Llwynrhydowen*; ac nid yw 1734—dydd y briodas uchod ymhell. Pwy ŵyr nad oedd Mary Thomas, Pantydefaid yn aelod neu yn wrandàwr yn y Wernhir ac wedi rhoi tir i godi capel cyn rhoi ei llaw i'r gweinidog ieuanc ?

Beth am awgrym Gwili o 1725 ?

Nid oedd Jenkin Jones ond prin wedi gadael y Coleg, heb rwygo Pantycreuddyn a heb ddechreu pregethu Arminiaeth yn y Wernhir. Yn 1820 rhoes John Jones mab Jenkin Jones ganiatad i'r Parch. S. Griffiths, Horeb, bregethu yng Ngharmel. Os felly buasai'n agos i gant oed. Yn 1768 cyhoeddwyd "Hymnau * * Jenkin Jones", a cheir englynion i'r etifedd ar ddechreu'r gyfrol,—

"Od oes clod yn bod tra f'o byd—i rinwedd
A rennir *mewn ie'ngctyd*;
Bydd i Meistr Jones astud
Wrth ei fodd, boed hyn o hyd."

Os ydyw "mewn ie'ngctyd" yn cyfeirio at oedran John Jones, yna y mae'r dyddiad 1734 yn agos i'w le gan y byddai ef tua 30 mlwydd oed. (Gyda llaw fe garwn i gael esboniad ar y ffaith fod John Jones, yn *drustee* ar John Johnes o Dolaucothi :—

"For consideration £510 : 10s. John Johnes of Dolaucothy and John Jones of Pantdevaid convey to John Davies, of Llanfechan, Ffynantucha, Ffynantissa, Abernant ffynant, Pwllbilog : Vendor J. Jones of Pantdevaid, trustee for J. Johnes.").

Y mae'n werth sylwi ar gofnod neu ddau. Mewn "Deed of Settlement" fe'i gelwir ar y 9fed o Fawrth 1725 yn 'Jenkin Jones, Gentleman, of the parish of Llanwenog'. (Gan ei fod yn 'Gentleman of Llanwenog', yn ŵyr i Thomas David Rees, Pregethwr y Bedyddwyr yng Nglandŵr, a chofier nid yw Trafle a Bryngranod nepell o Landŵr nac o Grugymaen gyda llaw—prin filltir neu ddwy—ai amhosibl yw na symud wnaeth o awyrgylch ryddach Crugymaen i awyrgylch Galfinaidd Pantycreuddyn gan rwygo'r eglwys. Os oedd yn 'gentleman' fe'i goddefid dro bach. Fe garwn i awgrymu hynyna o gofio ei fod yn y *Fadfa* yn 1730 a hwyrach yn y *Wernhir* tua 1726 ? Nid yw hynyna ond awgrym cynnil). Ar *fond* dyddiedig Chwefror 19, 1730 fe'i gelwir yn "Jenkin Jones y Fadfa." Tybed fod y cofnodion hyn yn awgrymu nad oedd wedi priodi merch Pantydefaid—o leiaf nad oedd wedi

mynd i fyw yno. Ym Marwnad Jenkin Jones gan Evan Thomas neu Ifan Tomos Rhys dywedir,—

> "Ei lawn oleuni tanbaid
> Tywynnai o Bantydefaid
> Fel cannaid ganwyll."

Nid oes perffaith sicrwydd pwy oedd ei fam. Dywedir ei bod yn ferch i Thomas David Rees o Foyddyn. John Jenkins oedd enw ei dad, a ganwyd Jenkin Jones yn Nhrafle plwyf Llanwenog tua'r flwyddyn 1700. Yr oedd ei rieni yn gefnog. Gadawodd ei dad yn ôl y Drysorfa Gynulleidfaol 1850 td. 231 ganpunt at gapel y Llwyn. Arall yw awgrym David Lloyd mewn llythyr: "My grandfather intends settling by will £5 per an. on Llwynrhydowen for support of a Minister charged on the tenement of Cevncoed." Pwy Gefncoed? Bu farw John Jenkins tua chanol Mawrth 1759. Bu yn byw ym Mryngranod ond nid ymddengys ei fod yn berchen arno oherwydd yn 1679 yr oedd yn rhan o Stad Alltyrodyn. Daliai'r diweddar Barch. Thomas Thomas,—"Rev. Jenkin Jones ab Shôn Jenkyn y Gôf, Wernhir near Alltyrodyn, after that 'Refel Fach' on the land of Coedlanaufach." Y mae'n ddiddorol am ei fod yn cydio Wernhir â stad neu feddiannau Jenkin Jones.

Y mae'r hen weithredoedd hyn yn darllen yn ddiddorol. Yn 1778 ceir gweithred briodas rhwng Jane Lloyd, Castellhywel, (merch David Lloyd, Brynllefrith) a Thomas Thomas, Llanfair, ac ynddi ceir "a clause granting a lease to the Congregation of Llwynrhydowen for a term of 999 years at an annual rent of one barley corn." Ar farwolaeth y Parch. David Lloyd "a release was granted to the Trustees, and the lease of Llwynrhydowen Chapel and Burial Ground was reduced from 999 years to 99 years."

Fedr rhywun esbonio pam? Fe garwn i gael hanes y *release* yna. Fe fuasai'n ragarweiniad i'r Troad Allan.

Aeth i'r Coleg yng Nghaerfyrddin yn 1720 ond nid oes gofnod iddo aros yma wedi Ebrill 1722. O leiaf ni cheir sôn wedi hyn amdano ar lyfrau'r Bwrdd Presbyteraidd ond dylasem gofio ei alw yn "Gentleman" ac y medrai gadw ei hun yno heb bwyso ar y Bwrdd o gwbl. Awgrymir iddo golli *grant* y Bwrdd oherwydd clywed ohonynt chwedlau ei fod ddim yn iach yn y ffydd. Gyda llaw ni ddylasid rhoi coel ar lythyrau Anna Beynon. Mewn llythyr dyddiedig Rhagfyr 12, 1725, dywedir,—

> "Y mae Jenkin Jones wedi priodi etifeddes Pantdefaid. Y mae Mr. Lewis ac yntau yn methu cydweled o hyd, ac y maent wedi preintio bob o lyfr yn erbyn eu gilydd."

Ond cofio dyddiad y llythyr (1725) a chofio pryd y cyhoeddwyd "Y Cyfrif Cywiraf o'r Pechod Gwreiddiol", llyfr James Lewis (1730) deellir pam na ddylasid rhoi coel arnynt.

Ni wyddis dim am ei addysg rhagor nag iddo fod yng Nghaerfyrddin. Cyhoeddodd amryw gyfieithiadau o lyfrau a'r "Cyfrif Cywir" a'r "Emynau".

Diddorol yw cydio mewn hen lyfrau a chofiaf y diweddar Brifathro J. H. Davies yn dangos copi anghyflawn o Gatechismau Jenkin Jones i mi yn llyfrgell y Cwm a gwên chwareus ar ei wyneb oherwydd na wyddai odid neb fod ganddo gopi ohono.

Wele restr o'i weithiau :—

"Llun Agrippa, neu'r o fewn ychydig Gristion wedi ei ddadguddio. Wedi ei 'sgrifennu yn Saesneg gan F. Mead, ac yn Gymraeg gan Jenkin Jones a'i Brintio yng-nghaerfyrddin gan N. Thomas dros Gristmas Samuel a Lewis Griffies. A.D. 1723."

"Dydd y Farn Fawr neu Sain yr Udgorn diweddaf, sef Ymddangosiad dilys a disymwth Crist i Farnu'r Byd gan Tho. Vincent. * *
Yn awr wedi ei gyfieithu * * gan Jencin Jones."
Caerfyrddin gan Nicholas Thomas 1727. Pris 1s. 6d.

"Cyfrif Cywir o'r Pechod Gwreiddiol" 1729.
(Hyd y gwyddys nid oes gopi ar gael ohono).

"Catechismau, i'w dysgu gan Blant." (150 td. — xvi.).
(Copi anghyflawn oedd yn y Cwm ac yng Nghaerdydd).

"Hymnau, Cymmwys I Addoliad Duw o waith y Diweddar Barchedig Mr. Jenkin Jones, at y rhai y chwanegwyd Caniadau o waith yr un awdur ynghyd a'i Farwnad gan Evan Thomas. Caerfyrddin. Argraphwyd gan J. Ross yn Heol Awst dros Stephen Jones. M.CC.LXVIII."

Ceir traddodiad am Jenkin Jones yn cynorthwyo'r hen weinidog ym Mhantycreuddyn ond yn peri anesmwythyd oherwydd brigo o ryw syniadau newydd yn ei bregethau. Dywedid ei fod yn pregethu Arminiaeth.

"Daliai Arminius mai amodol yn unig oedd yr etholedigaeth ; bod Crist wedi marw dros bawb ; bod yn rhaid wrth ras Duw i'n hachub, ond ei bod yn bosibl gwrthod y grâs hwnnw ac yn bosibl cwympo oddiwrtho wedi ei gael." (Hanes C. yn y Ddeunawfed ganrif, td. 64).

Yn 1730 cyhoeddwyd y "Cyfrif Cywiraf o'r Pechod Gwreiddiol", ateb i'r "Cyfrif Cywir" a ddadleuai yn erbyn etholedigaeth bersonol, pechod gwreiddiol, etc. Gesyd "Gair yn ei bryd" Enoch Francis y ddadl yn deg wrth sôn am fobl yn dal ewyllys rydd gan ladd ar etholedigaeth a phechod Adda etc.

O edrych dros hen nodiadau ar lyfrau o'm heiddo tarewais ar sylw ar waelod tudalen 101 o "Brydferthwch Sancteiddrwydd" cyfieithad Theophilus Evans 1722.

> "Y mae'r Seremoni hon (arfer arall o blygu yn enw'r Iesu) yn dra buddiol yn erbyn yr Ariaid ac eraill o wrthwynebwyr Duwdod ein Harglwydd: ac am hynny yn dra charcus i'w harfer yn y dyddiau hyn pan yw cymmaint o'r fath ddynionach yn ein plith."

Ni wn ai cyfieithad yw'r nodiad ynteu gwaith Theophilus Evans. Y mae'n awgrymiadol o leiaf.

Ceir yr un syniadau (Arminaidd) o enau Arbitrius Liber yn Theomemphus, Pantycelyn,—

> "P'odd gael un perchen rheswm i haeru maes yn lân
> I Dduw *bwrpasu* dynion rywrai i uffern dân."

> "Dewch bawb, yw geiriau'r Arglwydd o bob ryw gonglau'r Ne."

* * *

> "Nid ydyw dyn heb allu er iddo fynd ar ŵyr
> Mae ei 'wyllys a'i resymau heb eto eu llygru'n llwyr.

* * *

> "Nid yw'r Efengyl euraidd a eilw rhai yn rhad
> A'i changau oll yn tyfu i maes o ddwyfol wa'd
> Ond *copi* o foesoldeb etc.
> Ar ôl y copi yma, os byddwn ninnau byw
> Ein rhinwedd ni sy'n prynu'n sylweddol deyrnas Dduw."

O ddarllain hanes Charles Winter, cyd-fyfyriwr ond odid a Jenkin Jones ceir fod yr hen athrawiaethau yn colli eu gafael a hyd yn oed mor gynnar a 1729 bu'r eglwys bron rhannu wedi dadl ar y "Pechod gwreiddiol". Ni wna un wennol haf ond dywed y wennol gyntaf y gallwn o leiaf ddisgwyl haf.

Nid oes yn aros ddim pendant ond ei Hymnau a gyhoeddwyd gan ei nai a'i fab yng nghyfraith Dạvid Lloyd, Brynllefrith.

(Gyda llaw y mae'n ddiddorol gweld bod gwerthu ar yr Hymnau. Fe geir rhestr o danysgrifwyr ar ei ddiwedd—dim ond enwau 29 ond y fath 29—yn cymryd pumtheg cant o gopiau. Yr oedd yna bobl gwerth cyhoeddi llyfrau ar eu cyfair slawer dydd ! !).

Fe geir yn yr Hymnau Fawl i'r Drindod am Brynedigaeth ac Iechydwriaeth. Ni ddylasid rhyfeddu at hyn. Ni chredaf bod y Drindod wedi bod yn faen tramgwydd. Pe doi gorfodi y Canol Oesoedd i Geredigion ni chredaf y cerddwn at yr ystanc er peidio credu y Drindod. Nid dyna a fuasai yn fy mhigo i ond yn hytrach y *Cwymp* a'r *Iawn* fel y mae wedi cael ei hesbonio ar hyd yr oesoedd. Pe ceisid ei hesbonio fel ym Mannau Ffydd y Dr. Miall Edwards hwyrach na buaswn innau nepell o fod yn gadwedig. Ni chredaf am foment fod y Drindod wedi trwblu meddwl Jenkin Jones a pho fwyaf y darllenaf o'i emynau teimlaf ei fod yn defnyddio hen dermau'n fynych ond bod rhyw feddwl ffres yn brigo hwnt ac yma gan awgrymu "gwanwyn gwyrdd".

"I'r Tad a'r Mab, i'r Ysbryd Glân,
I'r tri yn un ; i'r tri ar wa'n."

Dyna'r Drindod ac ar ei ôl ceir mawl i'r Iesu.

"Heb ysbryd llesg, heb osgedd llaes
Wyf ddyn o fewn, wyf ddyn o faes,
Wyf was it Dduw", medd Iesu da
"Dod im' y gwaith a minnau a'i gwna."

Y mae rywsut yn anghofio'i ddiwinyddiaeth bendant :

"Ein Deddfwr yw yr Iesu Mawr,
I ddysgu dyn y daeth i lawr
O'r Nef, â'i air y dengys ef
Yr unig ffordd i fynd i'r Nef."

Nid credu a dim ond hynny mo efengyl Jenkin Jones.

"Os rhown ein bryd, fe ffynna'n gwaith
Ar weithio'n Iachawdwriaeth faith
Er gwaetha'r byd, daw'r gwaith i ben ;
Ni fyddwn yn y Nefoedd Wen.

A chalon bur tra byddom byw
Wrth ddilyn rheol deddfau Duw
Trwy ddyfal boen a gofal tyn
Mae dwyn i ben y gorchwyl hyn.

Dod gymorth i ni, Iesu 'nawr,
Ein nerth sydd fach, a'n gwaith sydd fawr,
Tyrd gyda ni, dod in' dy nawdd,
Ein ffordd fydd rhwydd, ein gwaith fydd hawdd."

Hyd y medraf gasglu nid rhyw nifer bach o etholedigion oedd yn annwyl i Iesu ond "*pawb*",—

"Goleuo'r wyf blant Adda i gyd
Hyd ddrws y Nef trwy ddyrys fyd."

Yn ei farwnad gan Evan Thomas Rees a oedd yn gymaint Armin ag yntau ceir,—

"Ei ddoeth athrawiaeth
Fod colledigaeth Dyn
A'i gadwedigaeth happus
A'r ddewis hwn ei hun."

Y mae Dafydd Lloyd yntau wedi symio'r cyfan i fyny gan ddangos fod Jenkin Jones fel llawer o wŷr ei oes yn fodlon ar y Beibl a dim ond y Beibl gan wrthod credoau dynion :—

"Hen Galfin ac Arminiws
Gyrrais draw gor is y drws
Siencyn Sion iawn wiwddawn ddyn
Hoff araith fu'r offeryn
Na rown eithr i'r Un Athraw
Gred o'm bron, yn llon na'm llaw.

* * *

Sai'r Bibl yn siwr i bobloedd
Yn rheol fyth, reiol rodd
Saif clod athraw hynod hen
Llawn rhad Duw, Llwynrhydowen."

* * *

Y mae rhywbeth mewn ardal. Pwysleisid *cydwybod* yn Nyffryn Teifi dri chan mlynedd yn ôl a rhwydd canfod hadau rhesymoliaeth yng nghanu'r offeiriad,—

Dyw hollalluog fyddo drygarog
Wrth bechadyried yn ei caethiwed
Consciens y ddamna, consciens y safia
Consciens fy'n barny pawb y dydd hynny.
Add. MS. 5a, 1704. Dienw.

O cofia'n wastod gadw cydwybod
Hon all dy ddysgy'r ffordd i drefaily.
MS. 609a.

Y mae rhywbeth yn *modern* mewn ambell ergyd :

Yr enaid aiff lle gwnaeth ei nyth
Y corph yn syth fe orwedd.

MS. C. 190. Thomas John, 1640.

Y corff aiff dros dro yr ddayar ar gro
A'r enaid i'r daith roi cownt am ei waith.

1713. D. John David. Add MS. 5a.

Yr awgrym drwodd a thro yw :

A holed pob dyn ei gonsciens ei hun
A ydy o'n byw mewn ffafar a Duw.

Dyna ond odid yr awyrgylch yr oedd Jenkin Jones yn byw ynddi—ac os oedd yn "gentleman" hwyrach ei fod yn *hannu* o deidiau o'r Eglwys lle yr oedd y *meddwl* yn rhyddach. O leiaf anesmwythid ei feddwl gan syniadau newydd. Nid oedd wedi ymddihatru yr hen syniadau ond yr oedd y plisg yn cracio. Ni thrwblid ei feddwl gan athrawiaeth y Drindod. Defnyddid yr hen dermau hyd yn oed pan gredid gydag "Arius detected and confuted"—"There was a time when Christ was not"—

Beth bynnag am y Drindod, yr oedd pechod Adda ac etholedigaeth etc. yn cael mynd dros y bwrdd. Fe welir y syniadau a gollfernid ond darllain cwyn S.T. yn Histori Heretic Pelagius (1735) ar eu hôl. Ys dywed Gwili yn ei lyfr td. 40,—"Ni chredid mewn pechod gwreiddiol ond yr oedd pob dyn yn Adda iddo'i hun. Nid oedd yn bosibl trosglwyddo llwgr gwreiddiol nac euogrwydd ac nid oedd Duw'n anghyfiawn at y sawl nas cawsant ran mewn dewis cyndad iddynt. Nid oedd tueddiadau at ddrwg ychwaith o anghenrheidrwydd yn bechadurus ac yr oedd gan ddyn allu naturiol i ganfod a gwneuthur y da. Rhoid pwys ar gyfrifoldeb ac ar fyw yn ôl y moesoldeb uchaf."

Ceisiodd Jenkin Jones ddwyn moesoldeb yn ôl i grefydd wedi'r ysgariad mewn theori o leiaf gan yr Antinomiaid. Dechreuodd wyntyllu yr hen syniadau gan droi golau rheswm ar yr hen gredoau. Ni cherddodd ymhell hwyrach ond yr oedd ei wyneb i'r cyfeiriad iawn. Ni phlygai i awdurdod Eglwys na Chredo na Phab. Digon iddo oedd y Beibl, ac astudio'r Beibl, nid er cael adnodau i brofi rhyw bwnc o ddiwinyddiaeth ond er gweld a oedd ynddo. Cyn ei farw yr oedd rhyw chwech neu saith o weinidogion ac eglwysi wedi cofleidio'i syniadau ac yntau wedi plannu eglwys Alltyplaca (1740). Gwnaeth ddiwrnod da o waith a chofio iddo farw yn 42 mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion ar yr 20 o Fehefin 1742 ym mynwent Eglwys Llandysul ond y mae'i ysbryd fel enaid John Brown y gân "*goes marching on*".

O.

Dyffryn Cletwr Fach.

AR ein pererindod i lawr trwy'r dyffryn yr ydym wedi cyrraedd Castell-hywel, y lle enwocaf, nid yn unig yn y dyffryn hwn ond yn y plwyf os nad yn y Sir a hynny oherwydd fod ei enw yn gymhleth ag enwau amryw enwogion a fu yn aneddu yma. Olrheinir ei hanes yn ôl am ganrifoedd. Trigai disgynyddion Cadifor yma o genhedlaeth i genhedlaeth. Dafydd ab Llewelyn Llwyd o Castell-hywel oedd aelod seneddol cyntaf i gynrychioli Ceredigion.

Y mae enw yr enwog Barch. Dafydd Dafis, Castell-hywel, prif-fardd y dyffryn ddechreu y ganrif o'r blaen yn adnabyddus trwy Gymru benbaladr, felly nid ein gwaith ni yw traethu arno. Ein gorchwyl ni yw sôn am rai o feirdd mân, a hên gymeriadau y dyffryn. Ond er mwyn gwneuthur chwarae teg ag ef—y dyffryn, nid gwiw yw i ni basio heibio heb ddywedyd gair neu ddau am dano.

Amaethdy prydferth yw Castell-hywel yn gorwedd ar lechwedd tlws, heb fod nepell o'r afon, gan hynny ni ellir galw Dafydd Dafis yn fardd bwthyn.

Edrychwn am funud trwy lygad dychymyg a gwelwn ef mewn dwfn fyfyrdod ar lan Cletwr Fach, ac y mae lle i feddwl iddo gael ysprydiaeth a chynhorthwy yn ei si i ddeall cyfrinach awen Thomas Gray pan oedd yn ymgodymu a'i orchestwaith diguro—"Myfyrdod mewn mynwent". Ni chrogodd "Dafydd" ei delyn ar helyg. glannau'r afonig ond parhaodd yn ôl traddodiad i gyfansoddi hyd y diwedd. Fel Dafis Castell-hywel yr adnabyddid ef trwy'r wlad ac ynglyn a'r lle hwn yr erys ei enw mewn bri, oherwydd, ac yntau yma, y cyflawnodd brif orchestion ei fywyd—fel pregethwr, prydydd ac ysgolfeistr. Ond fel bardd a chyfieithydd, ac nid fel pregethwr ac ysgolfeistr y cofir am dano heddiw. Darfu ei waith fel pregethwr ac ysgolfeistr gyd â'i fywyd, er fod ei ddylanwad yn y swyddi hynny yn parhau, hwyrach i raddau mwy neu lai. Ond erys ei waith fel bardd a chyfieithydd mor fyw ac mor felys ag erioed. Ac fe ellir dyweyd heddiw ar ôl dros gan mlynedd wedi'i farw fod ei gofiant ymhob modd yn uchel yn ei wlad, a diameu y deil felly tra fyddo yr iaith Gymraeg yn fyw. Ei gampwaith yn ddiameu yw ei gyfieithad o Farwnad anfarwol Thomas Gray. Y mae amryw wedi cynnig troi'r gân glasurol hon o'r Saesneg i'r Gymraeg ond nid oes neb hyd yn hyn wedi llwyddo yn debyg i'r graddau y mae Dafis Castell-hywel wedi gwneud. Y mae, trwy ei awen "er wedi marw yn llefaru eto".

Y mae rhyw ddeuddeg mwy neu lai o *flashlights* yng Nghymru heddiw, eu hamcan yw diorseddu'r sêr disgleiriaf yn ffurfafen

llenyddiaeth ein cenedl. Dywedodd un o rhain ychydig amser yn ôl nad oedd Dafydd Dafis yn fardd ac mai dim ond cymreigio *Gray's Elegy* a wnaeth, ac na ellid ei alw'n gyfieithad. Y mae un arall wedi taro'i fflach ar draws Ceiriog, ac yn ôl barn un arall o honynt, nid yw "Ysgol Farddol" Dafydd Morgannwg yn ddim amgen na bwndel o annibendod.* Fflachiad arall wedi darganfod nad oedd Williams Pantycelyn na Iolo Morgannwg yn emynyddion ac nid yw y darganfyddwr hwn erioed hyd ag y gwyddom ni, wedi cyfansoddi na emyn nac englyn, os ydyw bydded iddo ei gyhoeddi er mwyn i'r werin gael chwarae teg i farnu ei alluoedd llenyddol. Y werin yw'r beirniaid goreu o bawb, a gwyddom farn y werin am y beirdd a enwir uchod. Os nad oedd Dafydd Dafis, Castell-hywel yn fardd, dilys iddo ddywedyd y gwir yn y ddwy linell :—

"Holl ffyrdd llwyddiant a gogoniant
A ddibennant yn y bedd."

A ydyw y beirniaid mawr yma wedi clywed fod Bishop Burgess wedi cyflwyno pum' punt i Dafydd Dafis, Castell-hywel oblegid ei fod wedi curo Gray ei hunan ; ac fod Dr. Thomas Rees yn ei "Hanes Ymneilltuaeth" wedi mynegi fod cyfieithad Dafydd Dafis yn anghymarol well na'r gwreiddiol. Yn ein barn ni wele un o berlau ei gyfieithad :—

"Y mae'r gemau a'r perlau puraf,
Gorau'u lliwiau is y llo'r,
Dan y tonnau'n gudd rhwng creigiau,
Yn nyfnderoedd mawr y môr ;
Ac mae'r blodau teca'u lliwiau,
Lle nas gwelir byth mo'u gwawr,
Ac yn taenu'u peraroglau,
Lle na sylwa neb mo'u sawr."

Ganed ef yn Goetre-isaf, Llangybi, ger Llanbedr, yn 1745 a bu farw yn y flwyddyn 1827. Claddwyd ef yn Llanwenog.

Yng Nghastell-hywel y bu Christmas Evans yn hogyn gyrru'r wedd. Pan oedd tua dwy flynedd ar bymtheg oed yr oedd yng ngwasanaeth yr enwog a'r parchedig Ddafydd Dafis, o'r lle uchod, fel gwas cyflog, a phan oedd tua deunaw oed ymunodd a'r eglwys yn Llwynrhydowen a oedd ar y pryd yn cael ei bugeilio gan ei feistr y Parch. Dafydd Dafis. Yn fuan ar ôl hyn dechreuodd Christmas Evans bregethu. Anaml, yn ôl hanes, y gwelir dau ddyn mor dalgryf a chyhyrog a Dafydd Dafis a Christmas Evans.

---

*Fe ddywed Golygyddion er diogelu eu hunain nad ynt o angenrheidrwydd yn cytuno a phobdim a ysgrifennir. Caiff pob un ryddid gennyf innau. Nid yw o wahaniaeth p'un a'i cytuno a'i anghytuno yr wyf.

Ymadawodd Christmas Evans o Lwynrhydowen yn hollol ddidramgwydd. Edrychid arno'n barchus gan yr hên Athro o Gastell-hywel; ac yr oedd wedi cynnal ei hun am chwe mis dan ofal ei athro yn Athrofa Castell-hywel; a dyna i gyd a gafodd o addysg athrofaol. Symudodd yn fuan wedi hyn i Ogledd Cymru ac yno y bu'n bugeilio amryw eglwysi. Ceir hanes ei fod pan nad oedd ond pump ar hugain mlwydd oed yn bugeilio eglwys yn Llangefni am y swm o ddwy bunt ar bymtheg y flwyddyn.

Ganed Christmas Evans mewn lle o'r enw Esgerwen, ar dir Dyffrynllynod tua phedair milltir o Gastell-hywel ar ddydd Nadolig yn y flwyddyn 1766. Bu farw pan oedd ar daith bregethu yn Abertawe ar 20 Gorffennaf, 1838, a chladdwyd ef yno yng Nghladdfa y Bedyddwyr. Ychydig funudau cyn ei farw dywedir iddo adrodd mewn llais hyfryd a gorfoleddus :—

"Dyma'r wisg ddisgleirwen oleu
Guddia'm noethni hyd y llawr;
Fel nad ofnwyf byth ymddangos,
Mwy o flaen yr orsedd fawr."

Yng Nghastell-hywel y gwelodd y Parch. David Evans, B.A. gyntaf olau dydd yn y flwyddyn 1806. Bu farw yn y flwyddyn 1885. Yr oedd ei fam yn ferch i'r Parch. Dafydd Dafis o'r un lle. Bugeiliodd amryw o'r eglwysi Undodaidd yn Sir Aberteifi. Treuliodd y rhan olaf o'i oes ym Maesymeillion, ger Llanybyther. Y mae yn huno ei hun olaf ym mynwent Llwynrhydowen.

Yng Nghastell-hywel bu yn byw fardd arall o'r enw Thomas Lewis. Cyhoeddodd lyfr yn dwyn y teitl "Caniadau Duwiol". Tybir ei fod yn hannu o deulu'r Lewisiaid Dinas Cerdin. Wele un pennill o'i eiddo :—

"Ni ddylai ddyn lafurio'n unig,
Am fwyd a diod darfodedig;
Llafuriwch am y bara bywiol,
A bery o hyd mewn byd trag'wyddol."

Yng Nghastell-hywel y ganed Benjamin Evans, Cyfreithiwr, Castellnewydd-Emlyn yn 1809. Yr oedd yn ŵyr i'r Parch. Dafydd Dafis o'r un lle a thad Allen Raine y nofelyddes enwog. Bu farw Chwefror 14, 1884.

Y mae hanes Castell-hywel yn doreithiog a diddorol. Byddai'n beth dymunol i weled cyfrol hardd yn cael ei chyhoeddi dan yr enw "Ysgol Castell-hywel—ei Hathro, ei Hysgolheigion, a'i Dylanwad ar Gymru."

GLAN GLOWON.

Cyrddau Sefydlu'r Parch. T. L. Jones

FE gofir yn hir ar Gefn Coed Cymer y 4edd a'r 5ed o Ionawr diweddaf, oblegid dyma'r diwrnodau a neillduwyd i sefydlu y Parch. T. L. Jones, gynt o Notais, yn weinidog yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Pe gofynnid i mi i nodi nodwedd amlycaf y cyfarfodydd, atebwn yn ddibetrus—"brwdfrydedd". Ffynnai yno hwyl a gwres na bu eu hafal yn yr hen addoldy ers tro byd. Gŵg a surni nid oedd ar wyneb neb. Serennai sirioldeb ym mhob llygad. Am ennyd awr anghofiasom y dyddiau blin sydd wedi goddiweddyd glowyr ein hardal gan ehedeg fry i hapusach nen. Mwyn iawn i mi oedd bod yno.

Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol nos Lun a daeth lliaws mawr ynghyd. Pregethwyd yn fendigedig gan y Parch. Eric S. Price, M.A., Abertawe: gŵr ieuanc o wir dalent, a chan y Parch. Eric Davies, Birmingham. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. G. Kenfyn Davies, cyd-efrydydd a'r Parch. T. L. Jones, yng ngholeg Caerfyrddin.

Prynhawn dydd Mercher cynhaliwyd y "Cwrdd Croeso"—chwedl godre Brycheiniog—ac nid oedd yno sedd yn wâg. Cadeiriwyd gan Mr. Tom Lewis, Y.H. Cawsom yr hyfrydwch o wrando ar nifer go faith o siaradwyr, ac yn eu mysg rai o brif arweinwyr yr enwad. Hanes yr "alwad" a gawsom yn gyntaf. Adroddwyd hi mewn geiriau cain gan Ysgrifennydd yr Eglwys, sef Mr. Lewis Edwards. Crefodd Mr. Edwards ar Mr. Jones i wneud pob defnydd o'r talentau amrywiol a nodweddai ei gynulleidfa newydd, ac yn sicr da oedd y cyngor. Dilynwyd yr ysgrifennydd gan Mr. Emmanuel Lewis, ef, yn briodol iawn, a ddewiswyd i gyflwyno i Mr. Jones groeso'r eglwys. Gwnaeth hyn o ddyletswydd mewn araith wir hyawdl a choeth. Cof byr, ar y goreu, sydd gennym am orchestion y tadau nad ydynt mwy Byrdwn ei araith oedd ceisio gennym, nid yn unig i fod yn ffyddlon i'n gweinidog newydd, ond hefyd i gofio y blaenoriaid a draethodd i ni air Duw.

Amheuthyn i bawb oedd gwrando Mrs. J. R. Evans. Mynegodd hi deimlad cynnes y gwragedd. Cu iawn i mi yw cofnodi fod y cyff o'r hon yr hannai Mrs. Evans wedi cymryd rhan flaenllaw yn yr Hên Dy Cwrdd yn ddifwlch oddiar 1747.

Adloniad i gorff a meddwl oedd gwrando y Prifathro J. Park Davies. Talodd yr Athro deyrnged i'r eglwys am ei ffyddlondeb i'r pethau aruchel yn ystod y chwe blynedd y bu hi heb fugail.

Talodd deyrnged hefyd i Hathren ac Owen Evans a mel i fin pawb ohonom oedd ei glywed yn cyfeirio atynt gyda chymaint parch.

Arwydd o gynnydd, yn sier, oedd gweled Ficer y Plwy mewn pulpud Undodaidd. Anaml y gwelir hyn yn ein bro ni. Ond yr hên bethau a aethant heibio. Anogai y Ficer Mr. Jones i ddal fel craig dros egwyddorion a dysgeidiaeth yr efengyl.

Digri a ffraethbert oedd y Parch. E. R. Dennis, Aberdâr. Tarawodd dant newydd. Llonodd y gynulleidfa o'i wrando. Miniog oedd ambell wers ond nid oedd ameu ei gwirionedd. Cydnabu pawb fod Mr. Dennis yn ei hwyliau goreu.

Blasus odiaeth oedd areithiau Mr. T. H. Roberts a Mr. D. Rees, Notais. Dymunent bob llwydd i Mr. Jones gan fynegu eu gofid o'i golli.

Traethu ar draddodiad yr eglwys a wnaeth Mr. Gomer Ll. Thomas, Y.H. a datganodd Mr. Geo. Payne, Penygraig, ddymuniadau goreu y Gymdeithasfa Gyffredinol yn Llundain. Mewn araith a fwynasom yn fawr dymunodd y Parch. J. Kenfyn Davies "Dduw yn rhwydd" ar ran Cyngor yr Eglwysi Rhyddion. Gorchest nid hawdd oedd diolch am y geiriau caredig a lefarwyd am dano ond gwnaeth y Parch. T. L. Jones hyn o ddyletswydd yn wir daclus a chryno. Y Parch. E. Rosalind Lee, M.A. a roddodd y siars i'r gynulleidfa.

Yn yr hwyr mynegodd y Parch. T. Oswald Williams, M.A. y siars i'r gweinidog. Cymerodd Mr. Williams fel testun, 1 Pedr, 2, 3, 7. Gofod a balla i mi roddi hyd yn oed fraslun o'i bregeth aruchel. Gwrandawyd arno yn ewyllysgar ac awchus. Disgynnai ei eiriau fel pelennau eirias. Yn Saesneg y pregethai, ond Cymreig, yn ddiau oedd yr hwyl.

Fel diweddglo i'r cyfarfodydd pregethwyd ar ôl Mr. Williams gan y Prifathro. Heb nemor sŵn y traethai efe. Atgofiai ni o fwrlwm dyfn-ddwr. Cuddio'r gwirionedd a niwl geiriau ni wnaeth. Ein synnu a'n swyno ni fynnai eithr datguddio ac egluro'r gwirionedd.

Erys melus gof am yr oedfaon yn hir ar Gefn Coed.

T.L.

Myfyrwyr a Chydwybod.

Ymgom (dychmygol) rhwng dau.

IOAN : Wel, Gwilym, mae'n dda gennyf dy ddal yn y tŷ. Rhaid i ti faddeu i mi am ddyfod ar dy draws mor ddi-rybudd, ond yr wyf yn awyddys i siarad â ti am lawer o bethau. Mae'n debig dy fod wedi gweld yr YMOFYNNYDD am y mis Rhagfyr.

GWILYM : Mae'n dda gen i dy weld, Ioan ; yr wyf wedi darllen yr YMOFYNNYDD wrth gwrs. Beth am dano ?

I : Beth wyt ti yn feddwl am y syniad newydd yma, y sonia Mr. W. S. Jones am dano yn ei lythyr,—" na wneir grants i fyfyrwyr Undodaidd heb amod bendant yr ânt i'r weinidogaeth Undodaidd, neu os methant, yr ad-dalant yr hyn a dderbyniasant."

G : Wel, nid yw'r syniad yn newydd hollol, wyddost. Gwnawd ymdrech o'r blaen, yng nghyrddau Capel y Cwm, os wyf yn cofio yn gywir, i gael gan y Gymdeithas i fabwysiadu y rheol yma. Methiant fu yr ymdrech hynny, ac yr oeddwn i yn meddwl, efallai, na chlywid rhagor am y peth. Ond beth wyt *ti* yn feddwl am y syniad.

I : Deuais i'th weld y bore yma, gyda'r bwriad o ystyried y peth yn drwyadl rhyngom ni ein dau. Yr ydym ein dau wedi mynegi ein bwriad i baratoi ar gyfer y weinidogaeth Undodaidd. Nid ydym eto wedi ein derbyn yn ffurfiol gan y Gymdeithas, nac wedi gofyn yn bendant am gynhorthwy ariannol. Os ydyw y syniad yma yn mynd i wneud unrhyw wahaniaeth i ni, 'nawr yw'r amser i'w ystyried, a mynegi ein barn arno, oherwydd yn sicr, cydnebydd y Gymdeithas fod gennym ni gymaint o hawl a neb i draethu ein meddwl ar y mater.

G : Wrth gwrs, ond rhaid i ni beidio cymeryd yn ganiataol fod yr oll o'r gweinidogion a'r eglwysi o'r un feddwl eisioes. Nid planhigyn wedi tyfu i fyny o hono ei hun ar weunydd Sir Aberteifi sydd gennym i ymwneyd ag ef ; ac mae gen i ryw feddwl nad yw awyr Ceredigion nac awyr Morgannwg chwaith yn debyg o gytuno ag ef yn rhyw dda iawn.

I : Efallai dy fod yn iawn, ond gad i ni ystyried y syniad yma o safbwynt egwyddor, a dylanwad y peth ar feddyliau y rhai a effeithir fwyaf ganddo,—y myfyrwyr. Yr wyf fi wedi meddwl yn hir ac yn ofalus am y peth ; o'm rhan fy hun nid yw'r posibilrwydd o gael fy ngorfodi i ad-dalu yr hyn a dderbyniaf mewn cynhorthwy ariannol yn fy mlino am foment. Ni ofynnir i mi wneyd hynny oni " fethaf " gwblhau fy addewid i fynd i'r weinidogaeth Undodaidd. Tybiaf y byddwn yn " methu ", pe newidiwn fy meddwl

a mynd i ryw weinidogaeth arall, neu beidio mynd i'r weinidogaeth o gwbl. Yr oeddwn wedi arfer meddwl mai braint arbennig Undodiaeth oedd rhyddid i ddyn newid ei feddwl, ond gad i hynyna fod. Y mae eithriad i bob rheol, digon tebig. Yr wyf yn wir awyddus i baratoi fy hun yn weinidog Undodaidd. Yr wyf wedi mynegi fy mwriad i wneyd hynny. *Ni fedraf wneyd rhagor.* Y mae'r syniad fod yna bosibilrwydd yr âf i unrhyw weinidogaeth arall yn wrthun i mi, ond y mae'r syniad fod gan yr awdurdodau ryw ofn, neu ryw ddrwgdybiaeth y *medraf* newid fy meddwl yn y cyfeiriad hynny yn fwy gwrthun byth. Ni fedraf ddychmygu am undyn wedi ei ddwyn i fyny yn Undodwr, ac wedi ei wir drwytho yn egwyddorion Undodiaeth, yn troi at unrhyw enwad "union-gred" am unrhyw reswm sydd yn ymwneud a'i gydwybod. Pe byddai i unrhyw un "droi" am unrhyw achos arall, tybiaf y byddai arno rwymedigaeth *foesol* i ad-dalu y cynhorthwy ariannol, hynny yw, os na fedr ddweyd, heb ofn cael ei ameu, ei fod eisoes wedi ad-dalu, mewn gwasanaeth i'r enwad. Byddai yr un rwymedigaeth i'm tyb i yn gorffwys ar unrhyw un, pe byddai digwydd iddo benderfynu gadael y weinidogaeth a dilyn rhyw alwedigaeth arall am ei bod yn cynnyg gwell byd iddo, neu am ryw reswm cyffelyb. Ond rhwymedigaeth *foesol* wyf yn sôn am dani ; byddai gosod rhwymedigaeth *ffurfiol* o'r fath ar ddyn ar ddechrau ei yrfa yn gwenwyno ei feddwl ac yn amharu ei ewyllys ar y cychwyn. Ond, medrwn efallai, ddychmygu am fyfyriwr, yng nghwrs ei ymchwil am wybodaeth, yn dyfod i deimlo amheuon yn pwyso mor drwm arno, fel na fedrai yn gydwybodol, gymeryd arno y cyfrifoldeb o arwain meddyliau a chydwybodau dynion ; yr hyn fel gweinidog a ofynnid iddo wneyd ; nid wyf yn meddwl y byddai gan neb yr un hawl *foesol* i ofyn i ddyn o'r fath ad-dalu dim. Eiddo yr enwad yw'r cyfrifoldeb o daflu holl diriogaeth gwybodaeth a meddwl yn rhydd iddo ; os mai ffrwyth y rhyddid yma fyddai colli y myfyriwr, byddai hynny yn wir yn achos gofid, ond yn sicr byddai yn warth arnom i ofyn iddo *dalu* am ddilyn ei gydwybod. Rhywbeth yn debyg i hynyna yr ymddengys y mater i mi. Bwriadaf gynnig fy hun fel myfyriwr, a mynegi fy mwriad i fynd i'r weinidogaeth Undodaidd. Os gofynnir i mi wneyd rhagor, gwrthodaf ; ni fedraf i wystlo fy nghydwybod a'm rheswm

G : Gwelaf dy fod yn wir wedi rhoddi ystyriaeth drwyadl i'r mater. Yr wyf yn cytuno a'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedi, ac yr oeddwn wedi dyfod i rhyw benderfyniad tebyg fy hun. Fel y dywedais, nid ydym yn sicr eto y gofynnir i ni wneyd unrhyw adduned o'r fath. Os, y daw y cynllun yma wedi'r cwbl i ben, bydd yn siom fawr i mi. Yr oeddwn i fel tithau, wedi gosod fy nghalon ar y weinidogaeth Undodaidd ; ac nid oes arnaf fymryn o ofn na wnawn gwblhau fy addewid i fynd i'r weinidogaeth Un-

dodaidd, ac aros ynddi. Ond buasai'r ffaith y'm gorfodid i arwyddo adduned o'r fath ar bapur yn cyfnewid y cyfan i mi, ac ni chydsyniwn byth a'r fath amod. Os daw y cynllun yma i ben, yr wyf wedi gorffen am byth a'r *enwad* Undodaidd. Byddaf yn Undodwr tra byddaf byw,—ni fedraf fod yn ddim arall, ond os gwnaiff y syniad yma gario'r dydd, bydd arnaf gywilydd arddel y rhai a broffesa siarad dros Undodiaeth. Dyma wadu pob peth yr ydym wedi sefyll drosto erioed, a hynny er mwyn peth ?—er diogelu rhyw ychydig bunnoedd a werir ar baratoi myfyriwr ! Mae y peth mor fychan, mor gul, fel mae'n syndod gen i fod unrhyw eglwys Undodaidd erioed wedi rhoddi clust i'r fath gynhygiad. Mae arogl penboethni a thraheuster yr offeiriadaeth Babaidd arno. Duw waredo Undodiaeth rhag ei chyfeillion, ddywedaf fi.

I : Yr wyt yn dweyd pethau hallt, ond efallai nad wyt yn dweyd fymryn gormod. Yr oeddwn wedi meddwl fy hun fod yna rywbeth yn anghyson yn y peth.

G : Anghyson ? Meddylia am foment am yr hen bobl, yn weinidogion a lleygwyr, a fu yn cadw Undodiaeth yn fyw yn y sir yma, ac yn ceisio cario y genadwri i siroedd eraill, pan yr oedd yn *costio* rhywbeth i fod yn Undodwr. Wyt ti yn meddwl y buasai yr un o honynt yn rhoddi llety am funud i'r fath syniad a hwn. Dim perigl ! Byddai yn ofid calon ganddynt i weled myfyriwr yn cefnu ar eu hegwyddorion annwyl, ond a wyt yn meddwl y buasent yn ystyried rhoddi *pris* ar y golled o hono i'r enwad, ac yn meddwl eu bod yn diogelu ei gydwybod drwy ei orfodi i arwyddo *promissory note* ! Mae y peth bron a bod yn chwerthinllyd.

I : Ac yr wyt ti yn penderfynnu ymwrthod yn hollol a'r syniad o fyn'd i'r weinidogaeth Undodaidd os daw hyn i ben.

G : Heb os nac onibae. Ac ni fedraf i feddwl y gwnaiff *unrhyw* fyfyriwr sydd yn meddu ar yr un mymryn o hunanbarch wneyd yn wahanol. Dywedais mai Undodwr fyddwn tra fyddwn byw, ond os oes rhywbeth a fedr beri i mi ddygymod a'r syniad o berthyn i unrhyw gangen arall o'r eglwys Gristionogol, llwyddiant y cynllun hyn fyddai hynny. Mae yna bosibilrwydd i ddyn feddwl, na chaiff *lai* o yspryd rhydd, beth bynnag, mewn rhyw fan arall. Beth am danat ti ?

I : Yr wyf fi gyda ti. Beth pe baem yn anfon llythyr at Olygydd yr YMOFYNNYDD yn mynegi ein teimladau.

G : Ie, neu gwell fyth, gad i ni geisio rhoddi ar bapur gynnwys yr ymgom yma, a cheisio gan y Golygydd ei gyhoeddi.

I : Ati ynte.

T. L. J.

Priodasau.

Dydd Iau, Tachwedd 26, yn y Graig, Trebanos, o flaen y Cofrestrydd Mr. Noah L. Davies a'r Parch. D. G. Rees, Trebanos, priodwyd Mr. Esaiah Lewis Bevan, Trebanos â Miss Elizabeth Jennet John, Glyncoch, Clydach, ger Abertawe.

Ionawr 30, yng Nghapel Cribyn, gan y Parch. D. Evans, unwyd mewn priodas, Mr. Jenkin Davies, yn awr o Lunden, gynt o Lainwen, Ciliau Aeron, â Miss Sarah Lizzie, annwyl ferch Mrs. Jenkins a'r diweddar Mr. Griffith Jenkins, Glasfryn, Cribyn. Pob llwyddiant a dedwyddwch a'u dilyno.

Marwgofion.

Ar y 4 o Ionawr, ymron 96 oed, David Jones, Troedyrhiw, Cwrtnewydd. Gŵr adnabyddus a pharchus iawn yn yr ardal, ac wedi byw y rhan fwyaf o'i oes hir yn yr un lle, oddi fewn ychydig iawn o bellder i'r Esger lle y'i ganwyd. Lle cefn-haul yw Troedyrhiw—ond gwnaeth yr heulwen yng nghalon David Jones i fyny am bob anfantais yn herwydd hyn. Roedd yn ddiwyd iawn gyda'i waith ac yn llon bob amser yn ei ymarweddiad, a gellir meddwl fod llwyddiant wedi bod iddo bob cam o'i ffordd faith. Cafodd iechyd anarferol dda hyd y diwedd a'r oll o'i synwyrau heb eu hamharu. Un o golofnau Capel-y-bryn—lle yr oedd ei ffyddlondeb yn fawr. Claddwyd y dydd Gwener canlynol ym mynwent ei gapel. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. J. Vaughan-Pughe a E. O. Jenkins; yn y capel gan y Parchn. T. Oswald Williams, M.A. a S. E. Bowen, ac ar lan y bedd gan y Parch. David Evans. Gadawodd ddau fab a dwy ferch, wyrion ac or-wyrion, a llawer o berthynasau eraill i alaru ar ei ôl.

Ar fin cant drwy nant ddofon Ion—
yr aeth
O Droedrhiw hen gristion
Mwyna'r lle: cwmniwr llon,
Oedd ddifrad ei bur ddwyfron.
Cribin Bach.

Sul, Ionawr 10, ar ôl cystudd byr ond rhyfeddol galed, David, annwyl briod Letitia Davies, Felin, Talgarreg, yn 69 oed. Flynyddoedd yn ôl cafodd ei flino'n enbyd gan boen ar y pen a bu dan driniaeth lawfeddygol ac weithiau dioddefai oddiwrth yr effeithiau. Y Gwanwyn diweddaf collodd ei gôf i raddau pell, er hynny mwynhaodd iechyd pur dda hyd o fewn i wythnos i'w farw pryd y cymerwyd ef yn wael iawn, a diameu fod ei boenau'n enbyd. Mab ydoedd i'r diweddar John a Madlen Davies, Crugyreryr-isaf, ac fel y teulu i gyd yr oedd yn barod iawn i wneud cymwynas. Yr oedd yn ddyn deheuig iawn a bu o wasanaeth mawr i gylch eang o amaethwyr. Yr oedd siarad a thrin materion yn ei anian a phleser oedd cael awr yn ei gwmni pan y ceid ef mewn hwyl dda. Gadawodd mewn galar briod, tri o blant a nifer luosog o berthynasau agos ereill. Claddwyd yr Iau dilynol yn mynwent Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins; H. Ponsford (E), Talgarreg; I. W. Williams (A), Pisgah a J. O. Jones (A), Pencae.

Dydd Mawrth, 19eg o Ragfyr, yn 66 oed, Mr. D. Emlyn Davies, 103, Lammas St., Caerfyrddin. Bu yr ymadawedig yn clafychu am ryw dair blynedd ac ers ychydig cyn Nadolig aeth drwy amser poenus. O ardal Cribyn yr hannau Mr. Davies yn enedigol ond ynglyn a'i alwedigaeth fel teiliwr bu yn gweithio mewn gwahanol fannau ac am y 14 blynedd ddiweddaf gwnaeth ei gartref yng Nghaerfyrddin. Claddwyd

yr hyn oedd farwol o hono yng Nghladdfa Gyhoeddus y dref y dydd Gwener canlynol. Gwasanaethwyd gan y Prifathro J. Park Davies, yn cael ei gynorthwyo gan yr Athro J. Oliver Stephens. Nos Sul, y 24ain, cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol yng Nghapel Parkyvelvet o'r hwn y bu Mr. Davies yn Ysgrifennydd un amser ac yn ymddiriedolwr hyd ddiwedd ei fywyd. Gwasanaethwyd eto gan y Prifathro Davies. Gedy weddw, mab a dwy ferch yn ogystal a pherthynasau ereill i alaru ar ei ôl ac eiddunir iddynt oll ddiddanwch y Goruchaf yn eu galar a'u hunigedd.

Rhagfyr 19eg, Evan Thomas, Penbanc Cottage, Capel Dewi, Llandysul yn 78 oed. Collodd ei briod mis Chwefror diweddaf ar ôl cydfyw am 50 mlynedd ac o hynny i ben y daith bu byw wrtho ei hun gyda chynorthwy cymydogion. Y dydd uchod yr oedd cwmni ganddo'n y tŷ ac yn gynnar y prynhawn achwynodd wrth ei gwmni nad oedd yn rhy hwylus ond yn y man dywedodd ei fod yn teimlo'n well. Ymhen llai nag awr ar ôl hynny cafwyd ef yn farw yn ei ystol o flaen y tân yn eistedd bron fel arfer. Cafodd farwolaeth sydyn ac fel y credwn dawel ac esmwyth, ac i'n tyb ni bendith fawr iddo oedd hynny. Yr oedd wedi treulio ei oes yn yr ardal—yn hannu o deulu parchus—ac felly'n adnabyddus i gylch eang. Gadawodd i alaru ei golli fab, merch yng nghyfraith, wyrion, chwaer a dau frawd. Claddwyd y Mercher dilynol yn Llwynrhydowen pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a Mr. William J. James.

Rhagfyr 30, yn 88 mlwydd oed, Rees Thomas, Neuadd uchaf, Prengwyn, Llandysul. Yr oedd yr ymadawedig yn un o aelodau henaf eglwys Pantydefaid. Ymaelododd ynddi tua 70 o flynyddoedd yn ôl, a pharhaodd yn ffyddlon hyd o fewn ychydig i'w farwolaeth. Magodd ef a'i briod deulu lluosog a hynny o dan amgylchiadau anffafriol iawn. Gŵr arferai edrych am ymyl oleu i bob cwmwl ydoedd ef, a llonder ei ysbryd yn ei gadw'n fyth ieuanc. Ni chafodd fawr o fanteision mewn un cyfeiriad, ond dysgodd i fod yn fodlon ar bob profiad. Y dydd Llun dilynol gosodwyd yr hyn oedd farwol o hono ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. W. George, Curad; E. S. Davies, Capel Drindod (M.C.); D. A. Williams, Carmel (A); ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Gadawodd mewn galar wyth o blant heblaw perthynasau eraill.

Ionawr 4, yn 87 mlwydd oed, Thomas Evans, Fron Tysul, Llandysul. Daearwyd ei weddillion ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. R. Morris, Penybont; D. Rhydderch, Seion; W. George, Curad; Cenech Davies, Brynteg; ac E. O. Jenkins. Gŵr adnabyddid gan gylch eang ydoedd Thomas Evans ac a berchid gan bawb. Un a garai ei waith ac a'i dilynodd yn ffyddlon hyd o fewn tua blwyddyn cyn ei farwolaeth. Bu am flynyddoedd yn gweithio gyda y diweddar Mr. a Mrs. William James, Brynhyfryd, a dygent fawr barch iddo ar gyfrif llawer o rinweddau da fel gweithiwr ac fel dyn. Ni flinid ef byth gan y pruddglwyf oherwydd yr oedd bob amser ar ei wên ac yn llawen, a chynyrchai ysbryd llawen yn eraill tra yn eu cwmni. Gadawodd ddau fab a merch, ynghyd ag wyrion a pherthynasau i alaru ar ei ôl.

Ar y 7fed o Ionawr, yn 54 oed, bu farw Mary Anne James, Plasbach, Llanbedr, ar ôl cystudd cymharol fyr ond caled. Merch ydoedd i David Davies, Undergrove, Llanbedr. Ym Morgannwg y treuliodd ran fawr o'i bywyd; a'r farw'i phriod ychydig flynyddoedd yn ôl, dychwelodd i'w hên gymdogaeth. Aelod ydoedd o Eglwys Soar, Llanbedr. Gadawodd dad a nifer o berthynasau agos eraill mewn hiraeth o'i cholli. Dydd Llun dilynol, hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes gan dyrfa luosog. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y

Parch. D. Evans; pregethwyd yn y capel gan y Parch. Eirug Davies, M.A., B.D.; a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A.

Trist iawn cofnodi marwolaeth James Evans, Tynyfron, Llanwenog ar y 12fed o Ionawr, yn 46 oed. Yr oedd yn frawd parchus, dymunol iawn, ac mae pawb yn y gymdogaeth yn brudd wrth feddwl am ei ddiwedd annisgwyliadwy a thruenus. Claddwyd y Sadwrn canlynol ym mynwent Capelycwm, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. S. E. Bowen a J. D. Lewis, Ficer, Llanarth —yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. S. E. Bowen; J. Thomas, Ficer Llanwenog a E. O. Jenkins. Da meddwl y bydd i'w blant—mab a merch—i gael cartref dymunol, a phob gofal caredig yn nhŷ eu tadcu a'u mamgu yn Crossway, Cwmsychbant—gyda'r rhai y mae'r ferch fach yn byw yn barod. Gadawodd hefyd lu o berthynasau eraill i alaru ar ei ôl. Yr oedd y cynhebrwng yn lluosog iawn ac yn ddangoseg amlwg o'r parch oedd iddo yn ei ardal.

Ionawr 16, yn 83 mlwydd oed, Anne Evans, Castle Green, Prengwyn, Llandysul. Merch Glandwr ydoedd yr ymadawedig ac yno y bu am flynyddoedd hyd nes i'w mham a hithau roddi fyny amaethu a dyfod i'r lle uchod. Yr oedd Miss Evans yn un a fawr berchid gan bawb o'i chymdogion yn yr ardal ac y mae chwithdod mawr ar ei hôl. Benyw dawel ei hysbryd, di-falais a digenfigen a chanddi air da i bawb a chan bawb felly air da iddi hithau. Y dydd Mercher dilynol claddwyd ei rhan farwol ym mynwent Pantydefaid. Y Parch. T. Arthur Thomas yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. J. Rhedynog Evans, Curad ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Gadawodd ddau frawd a pherthynasau eraill mewn hiraeth o'i cholli.

Ionawr 16, yn 77 mlwydd oed, David Davies, Glanffynnon, Rhydowen, Llandysul. Bu yr ymadawedig yn wael ei iechyd am rai blynyddoedd a dioddefodd lawer yn ddiweddar. Bu yn byw yn Gwarcefel ac Abereinon cyn ymneillduo o honno i'r lle uchod yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn. Gŵr diwyd yn ei waith oedd David Davies, ac ni fuasai seguryd yn yr un byd ag ef. Gweithiodd yn galed ar hyd ei oes a gadawodd o'i ôl etifeddiaeth dêg mewn bywyd gonest a da, fydd yn ddylanwad pur ac iach am gyfnod maith. Hebryngwyd ei ran farwol yntau i fynwent Pantydefaid lle bu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd y dydd Iau dilynol i'w farwolaeth. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas a chynorthwywyd gan y Parchn. D. A. Thomas, Ficer ac E. O. Jenkins. Gadawodd yr ymadawedig mewn hiraeth o'i golli ddau fab a merch, dau frawd a pherthynasau eraill.

Y 25ain o Ionawr, yn ddwy flwydd oed, bu farw Gethin Wynne, annwyl blentyn John a Margaret Jones, Panteg, Llanbedr, ar ol cystudd byr iawn. Claddwyd ym mynwent Capelygroes y dydd Iau dilynol, a gweinyddwyd gan y Parch. D. Evans.

Ychydig amser yn ol—tua dau fis—bu farw Tom Band, yn un o Ysbytai Birmingham, ar ol mynd tan driniaeth feddygol. Nid yw'r manylion mewn llaw. Adnabyddus ydoedd i nifer luosog o drigolion cymdogaeth Llanwnnen, lle y treuliodd ran fawr o dymor ei ieuenctid. Wedi hynny, bu am beth amser yn y Maerdy. Ar farw ei ddiweddar briod, dychwelodd i'w gymdogaeth enedigol yn swydd Henffordd. Tra yng Ngheredigion, mynychai a bu'n aelod o Gapelygroes. Y mae iddo nifer luosog o gyfeillion yn y gymdogaeth, a drwg a fydd ganddynt glywed am ei farw cynnar.

Nodion yr Eglwysi.

CYFARFODYDD Y PASC.—Cynhelir hwy ynghapel y Graig, Trebanos, ddyddiau Mercher ac Iau, Mawrth 30 a 31. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.—E. O. JENKINS.

ALLTYPLACA.—Tanysgrifiad at dy'r Gweinidog. Cydnabyddir gyda diolchgarwch dderbyniad o danysgrifiad o bump punt tuag at y "Manse Fund" oddiwrth Mr. Dan Jones, Drefach Farm, Llanwnen.

ALLTYPLACA.—Yn hwyr y dydd diweddaf o'r hên flwyddyn cafwyd cyfarfod pleserus iawn yn yr ysgoldy. Gwledd ydoedd gan Urdd y Gwragedd, yn arbennig i aelodau'r Ysgol Sul ac i aelodau y Capel hefyd. Yr oedd yr ystafell wedi ei haddurno i roddi golwg wleddol iddi—a'r byrddau yn atyniadol yn eu llawnder o'r pethau goreu. Cafwyd chwaraeon yn ystod yr amser, a phob un oedd yn bresennol anrheg oddiar y *Christmas Tree* oddiar law *Father Christmas* ym mherson Mr. Evan Evans, Ty'r Capel. Pob diolch i'r Urdd—ac edrych y plant ymlaen at ben blwyddyn eto.

CAPEL-Y-BRYN.—Mewn atebiad i apêl y Gymdeithas i brynu y "Perlau Moliant" er mwyn lleihau y ddyled arno anrhegwyd Capel-y-Bryn, ag un copi yr un at wasanaeth ymwelwyr, gan a ganlyn: Mr. Josiah Jones, Tanralltgoch; Mr. Sim Evans, Aberteifi; Mrs. Davies, Esger; Mrs. Jones, Castle Green; Mrs. Pughe, Bryngrannod; Mrs. Evans, Cwrt Farm; Mrs. Thomas, Caesarn Cott.; Miss Jenkins, Tancoed; Mrs. Jones, Cwm-mawr; Mrs. Davies, Y Felin; Mrs. Jones, Brynllefrith a'r Parch. S. E. Bowen.

CAPEL-Y-BRYN.— Mewn cyfarfod o aelodau ar y Sul, 10fed Ionawr, cyfeiriwyd at ymddiswyddiad Mr. a Mrs. Cledlyn Davies o'r swydd o Ysgrifenyddion y gynulleidfa. Yr oedd Mr. Davies wedi gwneud y gwaith am ugain mlynedd a Mrs. Davies yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Pasiwyd pleidlais wresog o ddiolchgarwch iddynt am eu gwasanaeth gwerthfawr ar gynhygiad Mr. Thomas Davies, Y Felin yn cael ei eilio gan Mr. John Jenkins, Tancoed. Apwyntiwyd Mr. a Mrs. John Jenkins, Tancoed yn olynwyr iddynt yn y swydd.

CAPEL-Y-CWM.—Gadawodd y diweddar Evan Lloyd, Tyngrugganol, mewn ewyllys, y swm o gan' punt at wasanaeth y Capel. Bwriedir eu rhoddi ar lôg fel y bydd cydnabyddiaeth flynyddol o'i deimladau caredig tuag at yr achos yn adroddiad y Capel.

GRAIG, LLANDYSUL.—Dydd Calan anrhegwyd yr Ysgol Sul a chyfeillion eraill â gwledd o dê gan Miss Davies, The Alma. Ni arbedodd Miss Davies yr un draul na thrafferth er gwneud y wledd yn llwyddiannus ac yn llawn mwynhad i bawb. Daeth llu mawr iawn ynghyd a diolchwyd yn gynnes iddi am ei haelioni a'i charedigrwydd. Yn yr hwyr yn y Tysul Hall a Mr. T. J. Davies, y Postfeistr yn gadeiryddd, perfformiodd Cwmni Drama y Graig, y Gomedi enwog "Maes-y-deri" gan Mr. J. P. Walters. Yr oedd y Neuadd eang yn llawn, a diddorwyd y dyrfa am rhyw dair awr gan y parti. Hwn gredwn yw y gwaith goreu mae'r cyfeillion yn y Graig wedi wneud. Gwnaed elw da at Drysorfa yr Ysgol Sul.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Ar y 24ain o Ragfyr, 1931, bu dau o aelodau ffyddlon yr Hen Dy Cwrdd, sef Mr. a Mrs. John Davies, Llewelyn Street, Trecynon, Aberdâr, yn dathlu eu priodas euraidd. Nid yn aml y daw hyn i hanes eglwys, a theimlem yn falch iawn o'r cyfleu i estyn iddynt fel eglwys ein llongyfarchiad cynhesaf, a sicr wyf yr ymuna holl ddarllenwyr yr YMOFYNNYDD yn hyn ac i ddwys ddymuno y cânt iechyd a

Cynhaliwyd cyfarfod o tua gant o fenywod yn hen gapel Alltyplaca ar brynhawn Mawrth, Rhagfyr 1, er cychwyn Urdd Rhanbarth Ceredigion. Dechreuwyd y cyfarfod gan Mrs. Oswald Williams drwy iddi fynd drwy y Gwasanaeth o Lyfr y Gwasanaethau (y sydd newydd ei gyfieithu gan y Prifathro J. Park Davies, M.A.) a chanwyd Emyn yr Urdd fel y'i ceir yn y Perlau Newydd. Apwyntiwyd Mrs. Jones, y Bryn yn llywydd am y flwyddyn gyda Miss Evans, Ffynnonfair yn ysgrifennydd a Mrs. Williams, Barclays Bank yn drysorydd. Derbyniwyd llythyr o gyfarch oddiwrth Ysgrifennydd Urdd Rhanbarth De-dwyrain Cymru a neges hefyd o gangen Parcyfelfed Caerfyrddin. Datganwyd ei bod yn ddrwg gan y cyfarfod am absenoldeb Mrs. Park Davies y sydd wedi gwneud cymaint er sefydlu'r Urdd yn y rhanbarth oherwydd afiechyd ei mam. Anerchodd y Parch. Rosalind Lee, M.A. yr Urdd gan bwysle'sio ar ferched y sy'n dod o Gymru i Lundain i wneud defnydd o Hostel yr Urdd. Siaradwyd ymhellach gan y Parchn. S. Evans Bowen, E. O. Jenkins, Mrs. Jones, Dolgerdd, Miss Thomas, Ceinewydd, a Miss K. Jones, Gellifaharen. Cafwyd cyfarfod brwdfrydig, a pharatoes y cyfeillion yn Alltyplaca wledd o de i aelodau'r Urdd. Credaf fod pawb yn edrych ymlaen at y *Rally* nesaf—a bod ysbryd yr *Urdd* yn cydio yn yr aelodau.—K.J.

* * *

Fel Ysgrifenyddes Urdd y Benywod ym Mrondeifi teimlais o ddarllen y gwahanol adroddiadau o eglwysi eraill y dylaswn innau roi adroddiad byr gan fod gennym yma dros drigain o aelodau ffyddlon a gweithgar. Fe gymerai ormod o ofod yr Ymofynnydd pe rhown adroddiad manwl gan ein bod yn cyfarfod bob wythnos a rhywbeth gwerth ei gofnodi yn cael ei wneud bob tro. Ni wnaf ond prin enwi'r prif bethau a thalu teyrnged o barch a diolch i'r llywydd (Mrs. T. O. Williams) yr hon yw "bywyd" yr Urdd. Nid oes dim yn ormod o ffwdan na thrafferth iddi ei wneud a chredaf y doi pob aelod pe bai ddim ond er parch iddi. Y mae llwyddiant yr Urdd i'w briodoli iddi ond nid wyf heb awgrymu y cydweithio gwresog ymhlith yr aelodau hefyd. Wele restr:

Hydref 9: Noson Lawen i agor tymor y Gaeaf, 1931.
Hydref 30: Persil Demonstration.
Tachwedd 6: Cane plaiting (chairs) gan Miss Jones a Mrs. Williams.
Rhagfyr 4: Italian Quilting gan Mrs. Jones, Horeb.
Rhagfyr 29: Cookery Demonstration gan Miss Evans, Coedmor Hall.
Ionor 8: Araith gan Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther.
Ionor 22: Gweithio Basgedi gan Miss Davies, Llwynifan.
Ionor 29: Awgrymiadau Ty—(Household Hints) gan Miss Evans, Ffynnonfair.
Chwefror 4: "Eiderdown Quilt-making" gan Mrs. Jones, Horeb.

Rhoddaf y rhestr nid er fyfiaeth ond fel awgrymiadau i ganghennau gwannach ac ifancach o'r ffordd y cariwn ni ymlaen ym Mrondeifi. Cymered unrhyw Urdd ddalen o'n llyfr ac os oes yna rywun wedi gwneud gwaith diddorol rywle arall, rhowch wybod er i ninnau gymryd dalen o'ch llyfr chwi er mantais i'r Urdd ac er lles yr enwad.—M.A.T.

* * *

ABERYSTWYTH.—O'r diwedd mae Urdd y Benywod wedi cyrraedd hyd at Aberystwyth. Yn bennaf trwy offerynoliaeth Mrs. W. S. Jones ffurfiwyd cangen o'r Urdd yma mis Tachwedd diweddaf. Y swyddogion ydynt:— *Llywydd*: Miss Marles Thomas; *Ysgrifennydd*: Miss Megan Davies; *Trysorydd*: Miss Una Griffiths. Prynhawn Sadwrn, Rhagfyr y 12fed dechreuodd y gangen ar ei gwaith cyhoeddus trwy roddi te rhad i aelodau'r gynulleidfa ac ereill. Yn ystod y te cafwyd anerchiadau gan y Llywydd a chan y Prifathro J. Park Davies, M.A., B.D., a oedd hefyd yn bresennol, ynghyd a dwy gân gan un o ferched y Coleg. *Melus, moes eto*!

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.